# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **4 Mehefin 2018** |
| **Pwnc:** | **Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad Diweddaru ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol / Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Cynnydd gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant hyd yn hyn, o ran cyflawni ei raglen waith a'r gwaith paratoi a wnaed i fesur effaith a gwerth a ychwanegwyd.
- Ymddengys fod yr holl ffrydiau gwaith yn ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar darged hyd yn hyn. Cafodd hyn ei adrodd i'r Awdurdod Lleol yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)[1] yn dilyn eu hasesiad o hunan arfarniad y Cyngor o gynnydd hyd yn hyn
- Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, gyda llawer o'r gwaith hwnnw'n cael ei ddarparu'n fewnol

**A2** Uchafu'r mater â ganlyn er mwyn codi ymwybyddiaeth y Panel Sgriwtini Corfforaethol:

- Er bod cynnydd da wedi ei wneud o ran gweithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae rhai swyddi gweithwyr cymdeithasol yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth o hyd. Mae hyn yn cael ei gyfarch drwy ddatblygu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain drwy gefnogi gweithwyr cefnogol profiadol a hefyd recriwtio gweithwyr cymdeithasol newydd eu cymhwyso. Dylid nodi'r camau gweithredu a gymerir i gyfarch hyn.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Yn sgil yr ystyriaeth y mae'r Panel yn ei i roi i gynllun gwella gwasanaeth y gwasanaethau plant, bydd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn sicrwydd fod y Cyngor yn ymateb mewn modd cadarn i argymhellion adroddiad diweddar AGC ar y gwasanaethau plant (dyddiedig Mawrth 2017) a bod camau mewn lle i liniaru unrhyw risgiau.

[1] Gohebiaeth ddyddiedig 11/01/18 gan Arolygiaeth Gofal Cymru: Adolygiad o Gynnydd wrth weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant

| 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| Ar gais y Panel:<br><br>1. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ynglŷn â blaenoriaeth y ffrydiau gwaith a gynhwysir ym mlaen raglen waith y Panel?<br>2. A yw camau gweithredu'r Panel hyd yn hyn yn ddigon cadarn a chyflym? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| **1. CEFNDIR**<br>**1.1** Bydd aelodau'n ymwybodol eisoes fod sgriwtini wedi datblygu yn ystod y misoedd diwethaf drwy waith y 3 panel sgriwtini – Panel Sgriwtini Cyllid, Panel Sgriwtini Adolygu Ysgolion a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn mewn perthynas â'r **Panel Gwella Gwasanaethau Plant**.<br><br>**1.2 Trefniadau Llywodraethu'r Panel**<br>Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor[2] hwn, mae trefniadau llywodraethu cadarn mewn lle fel sylfaen i waith y Panel ac mae'n fwriad i geisio parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel yn ystod 2018. Mae trefniadau mewn lle i'r Cynghorydd Richard Griffiths, cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel, adrodd ar gynnydd bob chwarter.<br><br>**2. FFOCWS GWAITH Y PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT**<br>2.1 Erbyn hyn mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi cwrdd ar 10 achlysur, sef -<br>• 17 Gorffennaf, 2017<br>• 21 Awst, 2017<br>• 25 Medi, 2017 |

[2] Panel Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Medi a 13 Tachwedd, 2017

- 26 Hydref, 2017
- 28 Tachwedd, 2017
- 19 Rhagfyr, 2017
- 23 Ionawr, 2018
- 26 Chwefror, 2018
- 20 Mawrth, 2018
- 25 Ebrill, 2018

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel yn ystod y cyfnod Chwefror – Ebrill, 2018:

- **Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG)** – trosolwg o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ym mhob cyfarfod o'r Panel er mwyn sicrhau fod y rhaglen yn ei chyfanrwydd yn aros ar darged. Hefyd, er mwyn caniatáu i'r Panel nodi arwyddion cynnar o lithro neu ddiffyg cynnydd. Gofynnodd y Panel am adroddiadau cynnydd ar yr agweddau a ganlyn fel rhan o'i waith o fonitro'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn barhaus:
  i. Cwynion Rhan 4: gweithwyr proffesiynol
  ii. Trefniadau goruchwylio staff
  iii. Strwythur staffio / materion gweithlu ac effaith gwelliannau ar ymarfer
  iv. Trafodaethau gyda Heddlu Gogledd Cymru
  v. Cynllun Gwella Ymarfer a Safonau

  Adroddwyd fod cynnydd da wedi'i wneud. Yn ogystal, nodwyd fod rhai swyddi'n cael eu llenwi o hyd gan staff asiantaeth a bod angen eu llenwi ar sail barhaol.

  Rhoddodd y Panel ystyriaeth fanwl i 2 thema yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth:
  - **Thema 4[3] (CGG)** – gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg – treulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd yn eu helpu i newid fel bod y teulu'n lle diogel ar gyfer eu plant
  - **Thema 5[4] (CGG)** – gwella gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'u targedu tuag at ddarparu cefnogaeth ddwys a chyflym ar adeg pan fydd teuluoedd yn chwalu mewn ymgais i gadw'r teulu gyda'i gilydd.

- **Arfarniad Allanol** – nodwyd y byddai'r Tîm Cefnogi Annibynnol yn adrodd yn ôl i'r Panel ym mis Gorffennaf[5] ynglŷn â chanlyniadau eu hadolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG).

- **Ymweliadau Laming** – mae trefniadau adrodd cadarn mewn lle erbyn hyn ar gyfer Ymweliadau Laming, sydd â'r nod o ddod â'r Panel yn nes at achosion a chreu'r amodau i Aelodau werthfawrogi cymhlethdod a her dyletswyddau'r Gwasanaeth e.e. drwy gyfarfod â staff rheng flaen i drafod gwaith achos yn gyffredinol. Cafwyd adborth gan aelodau'r Panel ar Ymweliadau Laming mis Ionawr a Chwefror o dan y fframwaith llywodraethu cryfach. Roedd yr ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar:
  i. Y Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd (23/01/18) – rôl y Tîm, gyda sylw penodol i gyfraniad y Tîm i Thema 2 y Cynllun Gwella Gwasanaeth (sicrhau ansawdd ymarfer a chofnodi achosion)

---

[3] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2018
[4] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2018
[5] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant i'w gynnal ar 4 Gorffennaf, 2018

ii. Cyfleuster seibiant ar gyfer plant ag anawsterau (Bryn Hwfa) (16/02/18) – ymweliad safle, cyfraniad y cyfleuster wrth gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal sylweddol.

Yn ystod y cyfarfod ym mis Ebrill, cynhaliodd y Panel adolygiad o drefniadau Ymweliadau Laming yn ystod 2017/18 ac archwilio eu heffaith. Cadarnhawyd y trefniadau ar gyfer ymweliadau 2018/19. Yn ystod y trafodaethau, nododd y Panel fod dau brif bwrpas i'r Ymweliadau Laming, sef:

- Cyfle i Aelodau ddeall y Gwasanaethau Plant er mwyn gallu craffu'n effeithiol ar y gwasanaeth a dal swyddogion i gyfrif
- Cyfle i staff gyfarfod ag Aelodau Etholedig ac i fynegi eu barn.

- **Gweithio mewn partneriaeth** – trafodaeth fanwl gyda'r Pennaeth Dysgu ynglŷn â chyfraniad y Gwasanaeth Dysgu at raglen wella'r gwasanaethau plant. Cyfeiriwyd at yr angen i gryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth ymhellach gyda'r gwasanaethau plant, yn arbennig yn y meysydd a ganlyn:
  i. Pwysau cyllidebol yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau preswyl all sirol
  ii. Rheoli contractau er mwyn sicrhau gwerth am arian
  iii. Manteision trefniadau gwaith yn seiliedig ar ddalgylchoedd ysgolion
  iv. Llawn wireddu potensial y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth

- **Rheoli Perfformiad** – yn ogystal, rhoddodd y Panel ystyriaeth i nifer o faterion yn ymwneud â pherfformiad:
  i. Data Plant sy'n Derbyn Gofal – darparu dadansoddiad manwl o'r boblogaeth PDG a'r effaith ar gynllunio/modelu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth er mwyn cwrdd ag anghenion gofal a chefnogaeth plant a phobl ifanc yn y dyfodol
  ii. Perfformiad ariannol a mewnbwn gan y Panel Sgriwtini Cyllid
  iii. Perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) – yn cynnwys DPA y cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer y gwasanaethau plant, lefelau absenoldebau staff oherwydd salwch a rheoli cwynion

  Bwriad y Panel yw sicrhau ei fod yn rhoi ystyriaeth barhaus i faterion yn ymwneud â pherfformiad er mwyn herio a derbyn sicrwydd fod gwelliannau yn y gwasanaeth yn cael effaith ar berfformiad.

- **Hyfforddiant / sesiynau codi ymwybyddiaeth** – wedi ei ymgorffori i raglen waith y Panel, cynhelir y sesiynau hyn ar ddechrau bob cyfarfod o'r Panel. Mae meysydd sydd wedi cael sylw yn ystod y misoedd diwethaf yn cynnwys – Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys (pob agwedd ar y gwasanaeth yn cynnwys protocolau, prosesau, sgôp gwaith y 4 tîm – Tîm Teuluoedd Gwydn; Lleoli Plant; Ôl-Ofal, Gwasanaethau Cefnogi); Protocol rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol (gofynion, sgôp a threfniadau lleol).

**3. MESUR DEILLIANNAU AC EFFAITH Y PANEL**

**3.1 Cyd-destun**

Mae cofnodi ac asesu effaith Sgriwtini yn beth heriol i'w wneud gan nad yw deilliannau gweithgareddau sgriwtini bob amser yn ddiriaethol ac nid oes modd eu mesur mewn ffordd systematig bob tro. Yn ogystal, nid yw'n hawdd mesur effeithiolrwydd gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy siarad a thrafod. Fodd bynnag, mae taith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn enghraifft o sgriwtini

yn ychwanegu gwerth ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu cynigion.

**3.2 Panel Gwella Gwasanaethau Plant**

Mae'r gwaith o graffu ar daith wella'r gwasanaethau plant wedi aeddfedu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil mewnbwn y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cymeradwyo'r daith wella hon:

*"….Rydym yn cydnabod yr ymrwymiad corfforaethol parhaus a roddwyd er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau plant yn parhau i wella ynghyd â'r parodrwydd i ddod i gyd-ddealltwriaeth ynglŷn â'r heriau a wynebir. Yn ogystal, mae mwy o graffu a her gan aelodau etholedig wedi bod yn ddatblygiad positif..."*

Hyd yn hyn mae'r ffrwd gwaith hwn wedi arwain at y deilliannau cadarnhaol a ganlyn:

- Tîm o Aelodau, ar draws y partïon a grwpiau gwleidyddol, sydd wedi datblygu llawer iawn o wybodaeth am gymhlethdodau'r gwasanaethau plant ac yn meddu ar lefel o arbenigedd yn y maes gwasanaeth hwn
- Datblygu model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai, annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Creu amodau addas ar gyfer craffu effeithiol e.e. bu cynnydd gwirioneddol yn lefel a dyfnder y cwestiynau a ofynnir gan y Panel
- Mae gweithgaredd sgriwtini'n cael ei gynllunio'n dda, yn effeithiol ac yn wrthrychol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth o ffynonellau amrywiol.

Bydd Aelodau'r Panel yn ymgymryd â hunan arfarniad yng nghyfarfod nesaf y Panel[6] er mwyn:

i. mesur effaith y Panel ar raglen wella y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
ii. galluogi Aelodau'r Panel i raddio statws RAG Thema 1.5 Cynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn ymwneud â chynnydd hyd yn hyn yn erbyn dau argymhelliad adroddiad diweddar yr Arolygiaeth Gofal[7] sy'n ymwneud yn benodol â rôl yr Aelodau.

Bydd adroddiad ar ganlyniad yr ymarfer hunan arfarnu'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini maes o law.

**4. MATERION I'W HUCHAFU ER YSTYRIAETH GAN Y RHIANT BWYLLGOR**

Mae angen uwch gyfeirio'r materion a ganlyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

4.1 Er fod cynnydd da wedi'i wneud wrth weithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae rhai swyddi'n cael eu llenwi gan weithwyr asiantaeth o hyd. Mae hyn yn cael ei gyfarch drwy ddatblygu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain drwy gefnogi gweithwyr cefnogol profiadol a hefyd recriwtio gweithwyr cymdeithasol newydd eu cymhwyso. Dylid nodi'r camau gweithredu a gymerir i gyfarch hyn.

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn ynglŷn â chadernid gwaith monitro'r Panel hyd yn hyn.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

[6] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant i'w gynnal ar 24 Mai, 2018

[7] Arolygiad o Wasanaethau Plant: Cyngor Sir Ynys Môn (Mawrth, 2017)

| |
|---|
| |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Amherthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Y Cynghorydd Richard Griffiths**
**Cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant / Pencampwr Plant Mewn Gofal**
**Dyddiad: 23/05/2018**